# 4.0 Gwirfoddolwyr

## Hybu'r Gymraeg drwy Wirfoddoli

## Trosolwg


1. Cyflwyniad
2. Marchnata
3. Gweithrediadau a Darparu Gwasanaeth
4. Creu Cyfleoedd i Siaradwyr Cymraeg
5. Y Safon Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr
6. Gwybodaeth Bellach


## Cyflwyniad

Yng Nghymru, mae gan y Gymraeg statws swyddogol sy'n golygu na ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydyn nhw'n dewis gwneud hynny.

**Mae Safonau'r Gymraeg** yng Nghymru'n berthnasol i Lywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus a Pharciau Cenedlaethol. Maent yn fodel o arfer da i fudiadau eraill. Bellach **mae Comisiynydd y Gymraeg** yn cefnogi Mudiadau'r Trydydd Sector i lunio Cynlluniau Hybu'r Gymraeg.



Llun: Plentyn yn rhedeg gyda Baner Cymru

**Dolen Allanol**

Rhagor o wybodaeth am wefan Comisiynydd y Gymraeg:
Gwefan Comisiynydd y Gymraeg

Sefydlwyd y gwasanaeth hwn gyda'r **Safonau Iaith Gymraeg** newydd mewn golwg ac mae'n cymryd lle'r gofyniad blaenorol i gyhoeddi 'Cynllun Iaith Gymraeg.' Amlinellir isod rai o'r ffyrdd y gall mudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr helpu i hybu'r defnydd o'r Gymraeg.

## Marchnata

Mae gwefan Gwirfoddoli Cymru yn gweithio tuag at ddod yn safle cwbl ddwyieithog a chaiff mudiadau eu hannog lle bynnag y bo modd i uwchlwytho cyfleoedd yn ddwyieithog. Mae canllawiau ar gael ar y wefan i hwyluso hyn, sy'n cynnwys cyfieithiad o ymadroddion cyffredin wrth ddisgrifio rolau gwirfoddoli.

**Dolen Allanol**

Gwefan Gwirfoddoli Cymru

Mae Polisi Gwirfoddoli: Cefnogi Cymunedau, Newid Bywydau (2015) Llywodraeth Cymru'n annog mudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr i;

> "geisio hyrwyddo cyfleoedd priodol i wirfoddoli drwy gyfrwng y Gymraeg ac ieithoedd eraill os oes angen."

Mae Taflen Wybodaeth Denu Gwirfoddolwyr Sy'n Siarad Cymraeg Cefnogi Trydydd Sector Cymru'n cynnwys awgrymiadau ymarferol ar gyfer cyrraedd a recriwtio gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg a sicrhau eu bod yn teimlo bod croeso iddynt o fewn eich mudiad.

Ymchwiliwyd i fanteision marchnata dwyieithog gan fudiadau'r Trydydd Sector, yn ehangach, gan **Gomisiynydd y Gymraeg** a chanfuwyd bod budd i hyn. Mae'n helpu i sefydlu ethos Cymraeg mudiad, sy'n cael ei werthfawrogi gan siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg fel ei gilydd.

Roedd 70% o gyfranogwyr yr arolwg o'r farn y dylai elusennau sy'n gweithredu yng Nghymru farchnata'n ddwyieithog. Mae cyfathrebu'n ddwyieithog fel hyn yn ychwanegu hygrededd ac yn dangos ymrwymiad i gymdeithas a diwylliant Cymru. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran mudiadau Trydydd Sector sydd â phencadlys y tu allan i Gymru.

**Dolen Allanol**

Gellir lawrlwytho ymchwil i fanteision marchnata dwyieithog o wefan Comisiynydd y Gymraeg:

Comisiynydd y Gymraeg - Manteision Marchnata Dwyieithog

## Gweithrediadau a Darparu Gwasanaethau

Wrth i fudiadau geisio gwella'r ffyrdd y maent yn darparu gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg, bydd potensial cynyddol i wirfoddolwyr ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg i gynorthwyo gyda hyn.

Er enghraifft, mae canllawiau ar gael, yn seiliedig ar ymchwil ddiweddar, ar sut i gynnal hyfforddiant chwaraeon yn ddwyieithog. Gellir trosglwyddo'r technegau a ddatblygir yn y maes hwn i feysydd eraill lle byddai'n addas cyfathrebu'n ddwyieithog â grwpiau.

Wrth i'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol barhau i gynyddu, mae yna le i bostio sylwadau a negeseuon trydar yn Gymraeg a Saesneg ac efallai y bydd gwirfoddolwyr yn gallu cynorthwyo gyda hyn.

Dylid egluro anghenion penodol am sgiliau Cymraeg wrth hysbysebu rolau gwirfoddoli, gan gynnwys y math o sgìl (gwrando a siarad, darllen, ysgrifennu) a lefel hyfedredd.

**Cofiwch**

Efallai y bydd gan wirfoddolwyr presennol hefyd sgiliau iaith gwerthfawr y gellid eu defnyddio'n well er budd eich mudiad a'i fuddiolwyr.

## Creu Cyfleoedd i Siaradwyr Cymraeg (gan gynnwys Dysgwyr Cymraeg)

Mae gwirfoddoli'n cael ei gydnabod fel proses ddwy ffordd y mae'r mudiad sy'n cynnwys gwirfoddolwyr a'r gwirfoddolwr eu hunain yn elwa arni. Bydd rhaglenni gwirfoddoli da yn chwilio am ffyrdd y gall gwirfoddolwyr dyfu a datblygu, boed hynny er budd personol a mwynhad, i ennill sgiliau bywyd neu i wella eu gallu i gael gwaith.

**Y nod wrth gyflwyno mesurau'r Iaith Gymraeg yw bod y rhai sy'n dymuno byw eu bywydau bob dydd drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru'n gallu gwneud hynny.**

Drwy wirfoddoli, gall mudiadau gynnig amgylchedd lle gall pobl gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg neu ymarfer eu sgiliau ieithyddol i wella eu hyder a'u hyfedredd mewn sefyllfa anffurfiol. Gallant roi cyfle i bobl ifanc sy'n gadael y system addysg Gymraeg barhau i ddefnyddio eu Cymraeg ac, i'r rhai sy'n dal mewn addysg, gall fod yn ffordd o ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

## Y Safon Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr

**Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr** yw Safon Ansawdd y DU ar gyfer rheoli gwirfoddolwyr. Gall mudiadau ei defnyddio fel fframwaith ar gyfer datblygu eu harferion o ran gwirfoddolwyr, p'un a ydynt yn dewis cynnal asesiadau i gyflawni'r marc ansawdd ai peidio.

**Dolen Allanol**

Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr

## Gwybodaeth Bellach

### Yr Iaith Gymraeg a Gwirfoddoli (Chwefror 2014)
**Comisiynydd y Gymraeg**
https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/

---

### Mentrau Iaith
**Mentrau Iaith**
https://www.mentrauiaith.cymru/

---

### Comisiynydd y Gymraeg
**Comisiynydd y Gymraeg**
https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/

Gweler ymchwil ddiweddar a luniwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg - 'Y Gymraeg a gwirfoddoli 2014.

---

### Manteision Marchnata Dwyieithog gan Elusennau
**Comisiynydd y Gymraeg**
https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/

---

### Cynllun Cynnydd y Gymraeg
**Comisiynydd y Gymraeg**
https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/

Adnodd hunanasesu Cynllun Cynnydd y Gymraeg i ddatblygu fframwaith ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eich sefydliad dros amser.

---

### Polisi Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru: Cefnogi Cymunedau, Newid Bywydau (2015)
**Llywodraeth Cymru**
https://llyw.cymru/polisi-gwirfoddoli-cefnogi-cymunedau-newid-bywydau

# Gwybodaeth Bellach

**Taflenni Gwybodaeth Ychwanegol**
**Cefnogi Trydydd Sector Cymru**

4.5 Denu Gwirfoddolwyr Sy'n Siarad Cymraeg

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i’r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo’r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a’r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â
**https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/**

## Ymwadiad

Mae’r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw’n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy’n gweithredu neu’n gwrthod gweithredu arno.